# GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Tania Wilson-Price

**YSGOL GWAELOD Y GARTH CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON**
Mae'r gymdeithas wedi bod wrthi'n brysur yn ystod y tymor yn trefnu gweithgareddau amrywiol. Cynhaliwyd Twmpath Dawns llwyddiannus ar Ddydd Sadwrn 27ain Ebrill, Helfa Drysor hwylus ar Nos Sadwrn 15fed o Fehefin a'r Ffair Haf ar ddydd Sadwrn 13eg o Orffennaf. Cyflwynwyd siec o £350 i'r ysgol yn ystod y tymor ar gyfer teledu lliw a chwaraewr fideo newydd i'r neuadd. Mae'r plant a'r athrawon yn ddiolchgar iawn i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled ac yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth hael.

**SIOE GERDD**
Mae grwp o blant o'r ysgol wedi bod yn ymarfer ac yn cyfrannu ar gyfer recordiad o raglenni "Sioe Gerdd" y B.B.C. Recordiwyd y sesiynau yn ystod mis Mai. Bydd y rhaglenni yn cael eu darlledu yn ystod tymor y Nadolig. Diolch yn fawr i Miss Nia Lloyd Roberts am ei gwaith caled wrth baratoi'r plant.

**YMWELIAD Â'R MAES CENEDLAETHOL**
Bu plant blynyddoedd 5 a 6 yr Uned Gymraeg yn ymweld â'r Maes Cenedlaethol yng Nghaerdydd ar ddydd Mercher 19eg o Fehefin. Cafwyd cyfle i weld fideo ar hanes y maes, ystafelloedd o fewn y stadiwm, y creiriau a'r cyfle i redeg lawr y twnel i'r maes.

**DIOLCH YN FAWR MRS MORRIS**
Daeth cyfnod Mrs Bronwen Morris fel athrawes gyflenwi yn nosbarth 2C i ben ar 8fed o Orffennaf wrth i Mrs Sian Parry ddychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod mamolaeth. Rydym yn ddiolchgar dros ben i Mrs Morris am ei gwaith caled a'i hymroddiad yn ystod y cyfnod yma. Mae'r plant wedi bod yn weithgar ac yn hapus iawn yn ei chwmni.

**CRICED**
Llongyfarchiadau i dîm criced yr ysgol ar ôl iddynt ennill gem yn y gystadleuaeth criced i ysgolion yr ardal yn Ysgol y Ddraenen Wen ar ddydd Iau 20fed o Fehefin.

**YR YSGOL FEITHRIN CANU NODDEDIG**
Cynhaliwyd bore coffi ar 21ain o Fehefin. Cafodd y plant eu noddi i ganu deg can a chawsom berfformiad ardderchog ohonynt yn ystod y bore. Diolch i Ann a Judith am eu hyfforddi. Gwnaethpwyd £50 o elw o'r stondin gacennau a'r raffl ac mae'r arian noddi eto i ddod i mewn. Felly, bore llwyddiannus arall. Diolch yn fawr i'r rhieni am eu cyfraniad hael.

**TE PRYNHAWN**
Ar y 3ydd o Orffennaf cynhelir Te Prynhwn yn yr Ysgol Feithrin am 3.30 p.m. Dewch yn llu i gael cwpanaid o de ac amrywiaeth o gacennau blasus i'w bwyta.

**CAPEL BETHLEHEM TRIP YR YSGOL SUL**
Bu nifer o blant yr Ysgol Sul a'i rhieni ar ymweliad a Pharc y Deri ar y 22ain o Fehefin. Cafwyd amser da gan bawb a bu'r tywydd yn garedig iawn wrthynt!

**DERBYN POBL IFANC**
Cafodd pymtheg o bobl ifanc y capel eu derbyn ar yr ail o Fehefin. Dymunwn bob bendith iddynt yn y dyfodol.

**OEDFA FEDYDD**
Ar y 15ed o Fehefin cafodd Joseff Anthony, mab Dawn a Stuart Thomas, Pontypridd a brawd Huw a Rebecca ei fedyddio. Dymuniadau da iddynt.

**CYFARFOD TEYRNGED**
Cynhaliwyd Cyfarfod Teyrnged i'r Parchedig Ifor Rees ar nos Sul y 23ain o Fehefin am ei fod wedi derbyn gradd M.A. er anrhydedd gan Goleg Prifysgol Cymru am ei gyfraniad i waith radio a theledu. Daeth nifer o bobl a hen ffrindiau i'w gyfarch o dan arweiniad ein gweinidog, y Parchedig T.J. Davies.

Cafwyd cyfarchion oddi wrth y Parchedig Eirian Davies, Parch W. Rhys Nicholas, Beti Wyn Davies, Parch R. Alun Evans, Mefus Evans, Ray Evans a'r Dr Prys Morgan.

Ar ôl y cyfarfod darparwyd lluniaeth ysgafn yn y festri. Llongyfarchiadau mawr!

# YSGOL CASTELLAU

**EISTEDDFOD YR URDD**
Llongyfarchiadau i'r 50 o blant fuodd yn cystadlu yn Wrecsam eleni. Cafwyd perfformiadau cofiadwy gan y Côr a'r Ddrama a daeth Stacey Bressington yn agos at gyrraedd y llwyfan gyda'r Ddawns Disgo Unigol. Uchafbwynt y daith oedd cael llwyfan ar y Dawns Creadigol a chipio'r 3edd wobr.

Diolch yn fawr i Waith Glo Golosg y Cwm, i Gyngor Cymuned Llantrisant ac i siop SPAR am eu cyfraniadau tuag at gost y daith ac i Glwb Rygbi Beddau am y defnydd o'r neuadd ar gyfer y cyngerdd ac am y gwobrau raffl.

**CYMDEITHAS RIENI AC ATHRAWON**
Mae'r Gymdeithas wedi bod yn brysur y tymor hwn yn trefnu'r Barbeciw blynyddol a'r Ffair Haf. Diolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith a'u cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

**ATHRAWON**
Bydd dau o'r athrawon yn symud ymlaen ar ddiwedd y tymor. Dymunwn yn dda i Silyn Roberts sydd wedi ei benodi yn Brifathro ar Ysgol Gynradd Llanddewi Brefi. Hoffwn ddiolch iddo am ei waith fel Dirprwy yng Nghastellau ac am ei gyfraniad sylweddol i'r ysgol dros yr wyth mlynedd diwethaf.

Dymunwn yn dda hefyd i Eirlys Eckley sydd wedi ei phenodi yn Athrawes Fro yng Nghaerdydd. Diolch iddi hi am ei gwaith a'i chwmni dros y tair blynedd ddiwethaf.